Bwrdd Rhaglen Genedlaethol: Iechyd Meddwl
National Programme Board: Mental Health

RHAGLEN GENEDLAETHOL IECHYD MEDDWL OEDOLION

NEWYDDLEN #3
RHAGFYR 2010

Croeso i'n Newyddlen!

Y mis yma, rydym yn eich cyflwyno i'r Cyfarwyddwr Rhaglen Genedlaethol, Siân Richards a'r Athro Michael Williams, ein haelod Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae'r rhifyn yma yn rhoi sylw i Gynhadledd Genedlaethol Defnyddwyr/ Gofalwyr a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2010.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth gennych chi. E-bostiwch eich sylwadau at kathryn.parramore@wales.nhs.uk

---

CYFARFOD Â'R BWRDD RHAGLEN

Siân Richards, Cyfarwyddwr Rhaglen Genedlaethol

Mae gen i 25 mlynedd o brofiad ym maes rheoli gwasanaethau iechyd yn GIG Cymru ar ôl ymuno â'r gwasanaeth drwy'r cynllun hyfforddi rheoli i raddedigion. Mae fy ngyrfa wedi cynnwys rheoli darpariaeth weithredol, gwaith strategol cenedlaethol a swyddi cynllunio/comisiynu. Roeddwn yn Brif Weithredwr ar Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd o'i gychwyn yn 2003 hyd ei ddiwedd yn 2009.

Mae iechyd meddwl wedi bod yn ganolog i lawer o'm swyddi. Rwyf wedi bod yn rheolwr ar ysbyty iechyd meddwl ac wedi datblygu cynlluniau cymunedol mewn dau awdurdod iechyd gan fynd â'r rhain drwy ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol. Mae comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn elfen bwysig o swyddi mwy diweddar. Rwyf hefyd wedi arwain adolygiad iechyd meddwl dynladdiad ac roeddwn yn aelod o'r Bwrdd Prosiect Cymru Gyfan oedd yn goruchwylio trosglwyddo iechyd carchardai i'r GIG.

Roeddwn yn falch iawn o ymgymryd â swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen Genedlaethol: Iechyd Meddwl ar 1 Mehefin 2010.

Yr Athro Michael Williams, Aelod Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Rwyf yn cynrychioli Cartrefi Cymunedol Cymru ar y Bwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl fel yr Aelod Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac rwyf wedi bod yn Brif Weithredwr o grŵp elusennol cymdeithasau tai a gofal cymdeithasol, Gwalia ers 1982. (<http://www.gwalia.com>). Mae gen i brofiad eang, wedi gwasanaethu ar dair Ymddiriedolaeth GIG fel cyfarwyddwr anweithredol ers 1997. Bûm yn Gadeirydd Dros Dro yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac Is Gadeirydd cyn cael fy mhenodi fel Aelod heb fod yn Swyddog ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn 2009. Rwyf hefyd yn cadeirio Pwyllgor Archwilio Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol, yn Is Gadeirydd Pwyllgor Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Pwyllgor Gwasanaethau Arbennig Cymru ac rwyf yn rheolwr ysbyty a benodwyd i wrando ar apeliadau yn erbyn cleifion iechyd meddwl. Rwyf yn Is Lywydd Anrhydeddus o Gymdeithas Alzheimer Cangen Abertawe a chlwb dydd yn Abertawe, Forget Me Not Dementia Day Club.

Yn 2005, cyflwynodd Prifysgol Morgannwg Gadair Athro yn Ymweld i mi. Fel Athro mewn Gofal a Thai Cymdeithasol, mae fy ngwaith yn y Brifysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r arfer gorau ar gyfer cartrefu pobl â dementia a chyflyrau iechyd meddwl eraill a hyfforddi gofalwyr.

Cefais fy mhenodi ddwywaith fel cynghorydd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart ac yn 2008, ysgrifennais adroddiad ar Wasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru, "Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Lles addas i Gymru". Bu'r adroddiad yn sail i drafodaeth genedlaethol ar wasanaethau iechyd meddwl.

Mae gen i ddiddordeb ac ymrwymiad cryf i wella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac rwyf yn falch o gael gweithio gyda'r Bwrdd Rhaglen.

Y DIWEDDARAF GAN Y BWRDD RHAGLEN

Ehangwyd cylch gwaith y Bwrdd Rhaglen yn ddiweddar i gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (GIMPPI). Bydd Pwyllgor Llywio i oruchwylio gweithredu Cynllun Gweithredu GIMPPI yn cael ei gadeirio gan Joanna Jordan, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel aelod o'r Bwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl, bydd Joanna'n gallu sicrhau cyswllt uniongyrchol efo'n gwaith.

Aelodau Newydd

- Gwahoddwyd Iechyd Meddwl mewn Gofal Cychwynnol Cymru i ymuno â'r Bwrdd Rhaglen, a bydd un ai Dr Liz Davies neu Dr Huw Lloyd yn eu cynrychioli
- Bydd Ian Langfield, Rheolwr Cynllunio Gwasanaethau Arbenigol yn awr yn cynrychioli Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru
- Bydd Stuart Bartley, Uwch Reolwr Iechyd Cyhoeddus, yn awr yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru.

CYNHADLEDD DEFNYDDWYR/GOFALWYR
5 TACHWEDD 2010
'BLAENORIAETHAU'N BWRDD RHAGLEN IECHYD MEDDWL'

Trefnwyd a hyrwyddwyd cynhadledd genedlaethol Defnyddwyr/Gofalwyr gan Gweithredu dros Iechyd Meddwl Cymru a'r Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Roedd yn gyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth / gofalwyr a grwpiau hunan gymorth i ddynodi blaenoriaethau a materion ar gyfer y Bwrdd Rhaglen.

Daeth 120 o unigolion i'r gynhadledd o rwydweithiau defnyddwyr gwasanaeth/ gofalwyr gwahanol a grwpiau hunan gymorth ar draws Cymru a gymerodd ran mewn cyfres o drafodaethau drwy gydol y dydd.

Yn ystod sesiwn y bore, gofynnwyd i unigolion ***"Beth ydy'r prif gwestiynau, materion a blaenoriaethau ar gyfer meysydd penodol i'w gwella drwy'r Bwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl?"*** Ymhlith y materion a godwyd oedd:

- *Beth mae clustnodi yn ei olygu i wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru?*

- *Sut bydd y Bwrdd Rhaglen yn sicrhau ymgysylltiad, a bod yr wybodaeth yn cyrraedd cymaint o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr â phosibl?*

- *Sut bydd/gwnaeth y Bwrdd Rhaglen ddewis cynrychiolaeth o ddefnyddwyr a gofalwyr a sut gallwn ni sicrhau cyfraniad ystyrlon i'r agenda?*

- *Sut bydd y Bwrdd Rhaglen yn dylanwadu ar sefydliadau sy'n darparu, o ystyried nad oes ganddo rym ffurfiol na rôl craffu?*

Yn ystod y prynhawn, gwahoddwyd pobl i gymryd rhan mewn un o bum trafodaeth:

1. 'Cynllunio eich gofal yn iawn' gyda CPA a gwella eich gwasanaethau gofal cymdeithasol, hamdden, tai a chyflogaeth.
2. Cynnwys straeon defnyddwyr y gwasanaeth i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl.
3. Datblygu rôl darparwyr trydydd sector a hunan gymorth.
4. Hyrwyddo llais defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.
5. Iechyd meddwl a lles.

Tynnwyd sylw at nifer o feysydd gwasanaeth anghyson ar draws Cymru yn cynnwys datblygu perthynas onest i sicrhau cynnwys gofal a chynllunio yn llawn, mynd i'r afael â stigma'r cyhoedd ynglŷn ag iechyd meddwl a'r angen i fynd i'r afael â hygyrchedd gwasanaethau eirioli annibynnol. Byddai cefnogaeth i ddatblygu cyfraniad pellach gan y trydydd sector hefyd yn fuddiol.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod gan sawl maes darpariaeth gofal le i wella a rhannodd unigolion eu profiadau eu hunain yn agored yn ystod y dydd. Teimlai pobl fod y model adfer yn allweddol i'w profiadau eu hunain o

wasanaethau iechyd meddwl. 'Gwrando' ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ydy'r flaenoriaeth ar gyfer eu profiad gorau bosibl o wellhad ac ansawdd bywyd.

Teimlwyd y byddai gwell cyfathrebu yn allweddol i ddatblygu perthnasau ystyrlon, gyda defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod llawer o waith i'w wneud eto, y gobaith yw bod y Bwrdd Rhaglen mewn sefyllfa dda i fynd â'r agenda hon yn ei blaen.

Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a fynychodd y gynhadledd ac i'r Sefydliadau Sector Gwirfoddol a hwylusodd y diwrnod a chydlynu'r trefniadau teithio er mwyn gwneud hyn yn bosibl i lawer ohonoch. Rydym yn sylweddoli fod llawer o bobl wedi cael taith hir ac anodd er mwyn cymryd rhan yn y gynhadledd ac rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad a'ch syniadau yn fawr iawn.

Ystyriodd y Bwrdd Rhaglen grynodeb o'r trafodaethau ar 19 Tachwedd a bydd adroddiad llawn yn cynnwys yr holl themâu a drafodwyd ar y diwrnod yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ffurfiol nesaf ym mis Ionawr 2011. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r cynrychiolwyr gyda sylwadau ar gamau gweithredu gan y Bwrdd Rhaglen.

Digwyddiadau i ddod:

- 3 Chwefror 2011 – Digwyddiad Gwella Mynediad at Therapïau Seicolegol, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd
- 16 Chwefror 2011 – Rhwydwaith Gwella Cymru Gyfan, Stadiwm Swalec, Caerdydd
- 1 Mawrth 2011 – Cynhadledd Agwedd Rhaglen Ofal, Stadiwm Swalec, Caerdydd
- 9 Mawrth 2011 – Rhwydwaith Llety Iechyd Meddwl, Y Pafiliwn, Llandrindod
- 7 Mehefin 2011 – Rhwydwaith Rheolwyr Iechyd Meddwl, Y Pafiliwn, Llandrindod
- 6 Medi 2011 – Rhwydwaith Rheolwyr Iechyd Meddwl, Y Pafiliwn, Llandrindod
- 29 Tachwedd 2011 – Rhwydwaith Rheolwyr Iechyd Meddwl, Y Pafiliwn, Llandrindod

---

CYHOEDDIADAU DIWEDDAR:

- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Gwasanaethau Tai i Oedolion ag Anghenion Iechyd Meddwl – Tachwedd 2010

www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Housing_Mental_Health_eng_web.pdf

- Mental Health and the Productivity Challenge: Improving Quality and Value for Money

http://www.kingsfund.org.uk/publications/mental_health_and.html

YN OLAF…….

Gan mai hwn yw'r cylchlythyr diwethaf y byddwn yn ei ddosbarthu eleni, hoffem ddymuno i chi gyd

Nadolig Llawen

MANYLION CYSWLLT

Siân Richards, Cyfarwyddwr Rhaglen
Ffôn: 02920 335981
sian.richards3@wales.nhs.uk.

Kate Elis-Williams, Arweinydd Cyllid
Ffôn: 01248 384512
Kate.Elis-Williams@wales.nhs.uk.

Kathryn Parramore, Rheolwr Rhaglen
Ffôn: 02920 335983
kathryn.parramore@wales.nhs.uk.

Shane Mills, Rheolwr Caffael
Ffôn: 01874 712644
shane.mills@wales.nhs.uk.

NHS WALES GIG CYMRU	**Bwrdd Rhaglen Genedlaethol: Iechyd Meddwl** **National Programme Board: Mental Health**